# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Medi 2020

Amser: 14.30 - 16.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6428

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru<br>Tom Nicholls, Llywodraeth Cymru<br>Rob Owen, Llywodraeth Cymru<br>Simon White, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Buddsoddiad rhanbarthol ar ôl Brexit – 20 Gorffennaf 2020**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Prif Weinidog: Ymchwiliad cyhoeddus i'r ymateb i bandemig y Coronafeirws yng Nghymru – 30 Gorffennaf 2020**

**2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth mewn perthynas â'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 27 Gorffennaf 2020**

**2.4 PTN 4 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21**

**2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Gwybodaeth am y blaengynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol – 11 Awst 2020**

**2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Diweddariad ar y symiau canlyniadol y mae Cymru wedi'u cael yn sgil Covid-19 – 19 Awst 2020**

**2.7 PTN 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Ymateb ariannol i Covid-19 – 5 Medi 2020**

**2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Diweddariad ar gais ffurfiol Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU am ddatganoli rhagor o gymhwysedd trethi – 8 Medi 2020**

## 3 Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol; Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Bil - Uwch Swyddog Ymchwil; Simon White, Pennaeth Strategaeth Tai a Deddfwriaeth; a Rob Owen, Rheolwr Deddfwriaeth Rhentu Cartrefi ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

3.2 Cytunodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth gyfathrebu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

## 4 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Hewitt, Pennaeth Trethi a Deddfwriaeth a Dr Tom Nicholls, Cynghorydd Economaidd ar Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020: Trafod y dystiolaeth

6.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dystiolaeth a chytunodd i beidio â chyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 7 Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

7.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dystiolaeth a chytunodd i beidio â chyflwyno adroddiad ar y Bil.

## 8 Trafod y flaenraglen waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.

## 9 Gwaith ymgysylltu ar yr ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd o ran yr Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.